# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

Cynigion a gyflwynwyd ar 16 Gorffennaf 1999

Cynigion i'w trafod ar 21 Gorffennaf 1999

**Andrew Davies (Y Trefnydd)**

Cynnig bod y Cynulliad yn:

- Cydnabod ac yn parchu cyfraniad hanfodol y Sector Gwirfoddol a gwirfoddoli at anghenion cymunedau a'r bywyd cymdeithasol ac economaidd ehangach yng Nghymru;

- Cadarnhau gwerthoedd, egwyddorion ac ymrwymiadau'r Compact rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru y mae copïau wedi eu dosbarthu ymhlith Aelodau'r Cynulliad, ac yn cytuno i'w gweithredu nes bod Cynllun y Sector Gwirfoddol yn cael ei wneud;

- Cytuno y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Compact fod yn sail i Gynllun y Sector Gwirfoddol;

- Ceisio hybu partneriaeth real rhwng y Sector Gwirfoddol a'r Cynulliad a'i bwyllgorau; a

- Nodi y bydd 11 o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu henwebu i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol i fynd â thrafodaethau rhagddynt ynghylch y Cynllun.

(M73JS)

**Andrew Davies (Y Trefnydd)**

Cynnig bod y Cynulliad gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i reol sefydlog 6.35 a 6.36.

Yn y pennawd cyn rheol sefydlog 6.35, dylid hepgor "neu Gynigion".

Yn rheol sefydlog 6.35, dylid hepgor "neu gynnig".

Yn rheol sefydlog 6.36, dylid hepgor,

(1) "neu’n cyflwyno’r cynnig", a

(2) ", ac ni cheir cyflwyno gwelliant i’r cynnig hwnnw".

DS. Mae’r Pwyllgor Busnes yn unol â rheol sefydlog 26.1 wedi cyflwyno adroddiad i’r Cynulliad ynghylch gwelliannau arfaethedig i reol sefydlog 6.35 a 6.36 (yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 1999). (M74JS)

**Andrew Davies (Y Trefnydd)**

Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33 yn cymeradwyo’r drafft o Reoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.

(M75JS)

**Andrew Davies (Y Trefnydd)**

Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33 yn cymeradwyo’r drafft o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.

(M76JS)

## Gwelliannau i gynnig M71VB ar 15 Gorffennaf 1999 – Adeilad Newydd y Cynulliad

**David Davies (Mynwy)**

Ar ôl y gair "i" ychwaneger y geiriau "beidio â" a chyfnewid y gair "barhau" am "pharhau".

Ar ôl y geiriau "Adeilad Newydd y Cynulliad" dileer gweddill y paragraff ac ychwaneger, "ac yn lle hynny, dylai Llywodraeth Cymru ailgyfeirio’r arian a glustnodwyd ar gyfer adeiladu Siambr newydd i’r Cynulliad i adeiladu ysbyty plant newydd".

## Gwelliannau i Gynnig M70VB a gyflwynwyd ar 15 Gorffennaf 1999 – Etholiad Pwyllgor y T

**Andrew Davies (Y Trefnydd)**

Cynnig bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

yn lle "Aelod o Blaid Cymru a enwebir i'r perwyl hwnnw"

ychwaneger "Brian Hancock"

## Gwelliannau i Gynnig (M72VB) ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

**Phil Williams (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddechrau'r cynnig, ychwaneger

"Bod y Cynulliad"

(

- yn diolch. . . )

Ym mhwynt bwled 1, cyfnewid "y cronfeydd hyn" am "Cronfeydd Ewropeaidd"

Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger

" Er hynny, yr ydym yn credu, er mwyn i’r dogfennau fod mor effeithiol â phosibl, ei bod yn angenrheidiol sefydlu thema gref sy’n cyfuno’r gwahanol elfennau yn y deunydd cyfredol ac sy’n ategu’r dadansoddiad clir o anawsterau economaidd Cymru ar hyn o bryd, gyda mwy o bwyslais ar botensial real Cymru i wneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad cynaliadwy yr economi Ewropeaidd.

Yr ydym yn annog y Pwyllgor Datblygu Economaidd felly, gan gydweithio’n agos â’r Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed, i fod â rhan ganolog yn yr ymgynghoriad cyhoeddus gan roi sylw penodol i’r elfennau hynny na chynrychiolwyd mohonynt yn llawn yn y Tasglu, ac i ddatblygu’r achos a gyflwynwyd yn y dogfennau drafft yn llawn."